Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Carol Coxley**

**Caernarfon**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Rhagfyr 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Maent yn ymdopi'n dda wrth gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni / gofalwyr oherwydd bod y trefniadau trosglwyddo dyddiol yn gyson ac yn cydnabod ac yn cefnogi eu hanghenion unigol. Caiff teimladau ac anghenion y plant eu cydnabod am fod cydberthnasau da wedi cael eu meithrin gyda'r gwarchodwr plant. Maent yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu profiadau chwarae a dysgu. Mae'r plant yn rhydd i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel er mwyn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn briodol.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i rôl a'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n rhyngweithio â'r plant yn gadarnhaol drwy gydol eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu profiadau da i'r plant feithrin eu sgiliau creadigol a chorfforol a'u dychymyg.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac yn ddiogel. Mae wedi gwneud yn siŵr bod y teganau, yr adnoddau, y dodrefn a'r cyfarpar o ansawdd da ac yn addas ar gyfer oedran y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr ardal awyr agored mewn cyflwr da ac yn annog y plant i chwarae yn yr awyr agored yn aml er mwyn iddynt gael awyr iach.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r lleoliad yn effeithiol ac yn ymrwymedig i wneud gwelliannau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant. Mae wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni / gofalwyr.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Er enghraifft, mae'r plant yn hoffi siarad am eu hoff ffrwythau a rhannu'r hyn maent yn mwynhau bwyta i frecwast. Dangosodd un o'r plant ei lun yn falch a gofynnodd i'r gwarchodwr plant yn gwrtais i'w roi yn ei fag yn barod ar gyfer amser mynd adref. Ymatebodd y gwarchodwr plant ar unwaith, a gwnaeth hyn i'r plentyn deimlo ei bod yn gwerthfawrogi ei gais. Mae'r plentyn yn mwynhau siarad am y gweithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw gyda'u rhieni / gofalwyr a siaradodd un plentyn yn frwdfrydig am blannu blodau gyda'i fam.

Mae'r plant yn setlo'n gyflym am eu bod yn cael eu cyfarch gan y gwarchodwr plant cyfeillgar. Maent yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd a gwnaethant ddangos sut maent yn golchi ac yn sychu eu dwylo ac yn paratoi at amser bwyd. Mae'r plant yn mynd at y gwarchodwr plant yn gyfforddus i wneud eu ceisiadau ac yn mwynhau eistedd ar ei glin i wrando ar stori.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r gwarchodwr plant a'u ffrindiau. Maent yn mwynhau'r agwedd gymdeithasol ar amseroedd bwyd, yn eistedd yn dda wrth y bwrdd ac yn ymarfer bod yn gwrtais. Mae'r plant yn dysgu sut i gymryd eu tro, rhannu a chydweithredu'n dda. Er enghraifft, roeddent y cymryd eu tro i ddefnyddio adnoddau'r tŷ doliau er mwyn addurno'r ystafelloedd a chreu golygfa. Dangosodd un plentyn garedigrwydd wrth siarad am yr adnoddau ar gyfer y gornel anifeiliaid anwes yn y tŷ doliau a dweud bod angen i'r ci gael gwely er mwyn bod yn gyfforddus. Roeddent yn rhannu'r deunyddiau crefft a oedd ar gael i wneud eu creadigaethau.

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig. Maent yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Er enghraifft, roedd plentyn yn mwynhau cwblhau jig-so pren ar thema bywyd môr gan enwi creaduriaid y môr yn gywir. Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau chwarae rôl a'u dychymyg yn dda. Maent yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau i greu siop hufen iâ ac yn ymarfer cyfrifo'r arian tegan cyn ei roi yn y til. Arweiniodd hyn at sgwrs frwdfrydig am eu hoff flasau hufen iâ. Er enghraifft, rhannodd un o'r plant ei stori am gael cornet hufen iâ siocled gyda sprincleri pan aeth i'r traeth. Mae'r plant yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored. Maent yn brysur yn rhoi dyfrio'r planhigion, yn esgus coginio yn y tŷ chwarae ac yn archwilio'r ardd wrth gerdded o amgylch yn gwthio troli siopa tegan.

Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth mewn ffordd briodol. Fodd bynnag, caiff cyfleoedd eu colli wrth gyrraedd y lleoliad ac yn ystod amser bwyd i'r plant storio eu heiddo eu hunain a gweini eu bwyd eu hunain. Caiff y plant gyfle i arllwys eu diodydd o ddŵr eu hunain. Mae'r plant yn golchi eu dwylo'n hyderus a dangosodd un plentyn sut roedd yn defnyddio'r canllaw lluniau ar y wal i olchi ei ddwylo'n dda. Mae'r plant yn gwneud rhai pethau drostynt eu hunain yn dda gydag anogaeth gan y gwarchodwr plant.

## Gofal a Datblygiad Da

Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda. Mae ganddi ffordd gynnes a chyfeillgar o roi gofal. Mae'r gwarchodwr plant yn ymatebol ac yn sensitif i anghenion unigol pob un o'r plant. Mae'n gwerthfawrogi eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau yn gyson.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i rôl a'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n deall ac yn gweithredu ei pholisïau a'i gweithdrefnau'n dda er mwyn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol a llesiant. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth briodol o'r gweithdrefnau diogelu. Mae'n cofnodi presenoldeb y plant yn gyson fel rhan o'i harferion diogelu ehangach. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ar ddiogelu, cymorth cyntaf a hylendid bwyd sy'n addas ar gyfer oedran y plant sy'n derbyn gofal. Mae'n annog y plant i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chyn amseroedd bwyd er mwyn datblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i fwyta'n iach ac yn darparu dŵr yfed ffres. Mae'n gwneud yn siŵr y caiff ymarferion tân eu cynnal er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth y plant o'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn argyfwng. Mae'r gweithdrefnau newid cewynnau yn cydymffurfio â'r canllawiau rheoli heintiau cyfredol.

Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi'r plant i fynegi eu hunain yn gadarnhaol. Mae'n gwneud yn siŵr eu bod yn cael cyfleoedd cyson i ryngweithio'n effeithiol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr iaith y mae'r plant yn ei siarad gartref yn cael ei hyrwyddo drwy gydol y dydd. Mae ganddi ddealltwriaeth dda o'r polisi rheoli ymddygiad cadarnhaol ac yn rhoi strategaethau effeithiol ar waith er mwyn helpu'r plant i ddysgu cymryd eu tro, rhannu, cydweithredu a bod yn garedig gyda'u ffrindiau. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael preifatrwydd a bod eu hurddas yn cael ei barchu wrth newid eu cewynnau neu wrth ddefnyddio'r toiled.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu mewn ffordd ymatebol i gynllunio gweithgareddau. Mae'n gwrando ar ddewisiadau'r plant ac yn eu parchu ac yn rhoi'r cyfle iddynt gyfarwyddo eu chwarae eu hunain yn dda. Mae'r gwarchodwr plant yn cofnodi arsylwadau o'r hyn y mae'r plant yn ei wneud ond nid yw'n defnyddio'r wybodaeth i'w helpu i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer chwarae, dysgu a datblygiad y plant. Roedd wedi trefnu gweithgaredd amser stori hyfryd ac anogodd y plant i ryngweithio drwy gydol y gweithgaredd. Arweiniodd hyn at sgwrs frwdfrydig am y creaduriaid sy'n byw o dan y môr a phwy sydd wedi teithio ar gwch. Mae'r gwarchodwr plant yn codi ymwybyddiaeth y plant am eu hemosiynau ac yn gofyn iddynt feddwl am sut maent yn teimlo heddiw a pham. Mae'n darparu cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol yn effeithiol yn yr awyr agored. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i gymryd sylw o natur, ac arweiniodd hyn at sgwrs ddiddorol am loÿnnod byw.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae ganddi ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod system ar gyfer rheoli mynediad i'r safle a chedwir cofnod o ymwelwyr. Mae'n trefnu gweithdrefnau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae arferion rheoli heintiau effeithiol y gwarchodwr plant yn lleihau risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf. Caiff asesiadau risg o'r safle, y gweithgareddau a'r teithiau eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn tynnu sylw ar y risgiau posibl i'r plant a'r mesurau sydd ar waith i leihau risgiau posibl. Mae'r gwarchodwr staff yn goruchwylio'r plant yn dda drwy gydol eu gweithgareddau chwarae a dysgu dyddiol.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud yn siŵr bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dda dan do er mwyn i'r plant symud yn rhydd. Mae'n sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer yr ystodau oedran dan sylw. Mae'n sicrhau bod dodrefn o ansawdd da, sy'n briodol i oedran y plant, ar gael iddynt, yn ogystal â chyfarpar a theganau dan do ac yn yr awyr agored er mwyn ysgogi eu diddordeb a'u dychymyg. Mae'r gwarchodwr plant yn storio teganau, adnoddau a chyfarpar ar lefel isel, sy'n golygu y gall y plant gael gafael arnynt yn rhwydd ac y gallant ddewis beth yr hoffent chwarae ag ef. Mae gan y gwarchodwr plant le i storio eitemau personol y plant, ond nid yw'r plant yn cael y cyfle i storio eu heiddo personol eu hunain er mwyn datblygu eu hannibyniaeth. Mae'n arddangos llyfrau mewn ffordd ddeniadol, gan wahodd y plant i gymryd diddordeb ynddynt a'u darllen.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu deunyddiau a chynnyrch tŷ wedi'u hailgylchu er mwyn datblygu chwilfrydedd naturiol y plant. Fodd bynnag, nid oes digon o adnoddau i hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant am y gymdeithas ehangach ac i godi ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu cyfleoedd chwarae da i'r plant er mwyn datblygu eu sgiliau corfforol a'u dychymyg yn yr ardal chwarae awyr agored a gaiff ei chynnal a'i chadw'n dda. Er enghraifft, mae dewis o gerbydau pedlo, llithren, twnnel cropian a thŷ chwarae lliwgar. Mae'r gwarchodwr plant wedi sicrhau bod ardal ar gael i'r plant ddysgu am blannu a thyfu blodau er mwyn datblygu eu sgiliau meithrin.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r lleoliad yn effeithiol. Mae'n gweithio'n galed ac yn ymrwymedig i wneud gwelliannau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant.

Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben cyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac sy'n cynnwys y wybodaeth ofynnol er mwyn helpu'r rhieni / gofalwyr i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am y gwasanaeth. Mae'n adolygu ei pholisïau yn rheolaidd ac yn sicrhau y cânt eu rhoi ar waith yn ymarferol. Gall y gwarchodwr plant ddangos ei bod yn mynd ati i roi canllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru ar gyfer bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant, ar waith ond nid yw wedi cyfeirio atynt yn y polisi. Mae'n sicrhau bod yr holl gofnodion gofynnol yn cael eu cadw'n gywir. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r holl ddogfennaeth ar gael i'r rhieni / gofalwyr yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau o bwys. Mae wedi cyflwyno asesiad ar gyfer datganiad y gwasanaeth i AGC.

Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ansawdd y gofal yn flynyddol. Mae'n gofyn am awgrymiadau'r plant, eu rhieni / gofalwyr a gweithwyr proffesiynol am y gwelliannau y gellid eu gwneud. Fodd bynnag, nid yw wedi cynnwys y safbwyntiau hyn yn yr adroddiad er mwyn ei helpu i fesur llwyddiant y lleoliad fel rhan o'r prosesau hyn i werthuso'r gwasanaeth yn llawn nac wedi amlinellu'r camau a gymerwyd i wneud gwelliannau.

Mae gan y gwarchodwr plant systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd yn ôl yr angen ac mae'r gwarchodwr plant a'r rhan fwyaf o aelodau'r cartref yn meddu ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) cyfredol. Mae un cais yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Yn dilyn ein hymweliad, cyflwynodd y gwarchodwr plant dystiolaeth foddhaol i AGC bod y cais hwn wedi'i brosesu'n llwyddiannus ac mae'r tystysgrif GDG ar gyfer holl aelodau'r cartref ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn meddu ar y cymwysterau gofal plant gofynnol ac yn brofiadol yn ei rôl wrth ofalu am blant. Mae wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ar gyfer oedrannau'r plant sy'n cael gofal. Mae'r gwarchodwr plant wedi casglu'r holl wybodaeth ofynnol yng nghofnodion unigol y plant i sicrhau ei bod yn gallu diwallu eu hanghenion unigol.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod pob un o'r systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni / gofalwyr yn effeithiol. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni / gofalwyr am gynnydd dyddiol eu plant. Dywedodd y rhieni / gofalwyr fod eu plant wrth eu bodd yn mynychu'r lleoliad a bod y plant yn ystyried y gwarchodwr plant fel rhan o'u teulu. Dywedodd y rhieni / gofalwyr fod y gwarchodwr plant yn gwneud i bawb deimlo eu bod yn *'part of her family'.* Dangosodd y gwarchodwr plant ffotograffau o'r plant yn mwynhau eu hamser y tu allan yn y gymuned, yn mynd am dro ac yn ymweld ag ardaloedd lleol er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'u cymuned leol a meithrin eu sgiliau cymdeithasol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| | Ni wnaeth y gwarchodwr plant gwblhau a chyflwyno rhan 2 o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth erbyn y terfyn amser gofynnol. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Creu cyfleoedd ychwanegol er mwyn i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth, yn enwedig wrth gyrraedd y lleoliad ac yn ystod amser bwyd. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau y defnyddir yr arsylwadau o'r hyn y mae'r plant yn ei wneud er mwyn helpu i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer eu chwarae, dysgu a datblygiad. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Ystyried ychwanegu mwy o adnoddau er mwyn datblygu chwilfrydedd naturiol y plant a chodi eu hymwybyddiaeth o ddiwylliannau ehangach. |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Cynnwys safbwyntiau'r plant, y rhieni / gofalwyr a gweithwyr proffesiynol a'u defnyddio i nodi'r gwelliannau y gellid eu gwneud a'r camau gweithredu a gymerwyd er mwyn gwerthuso'r lleoliad yn llawn. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |

Wrth adolygu polisïau, sicrhau eu bod yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a chanllawiau cyfredol ar gyfer Cymru.

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/09/2024